NHS Annual report welsh 30/10/03 12:57 pm Page 1

THE **WELSH NHS** CONFEDERATION
CONFFEDERASIWN **GIG CYMRU**

Y Flwyddyn mewn Ffocws 2003

Gweithio dros Aelodau

Y Flwyddyn mewn Ffocws 2003 yw'r diweddariad blynyddol i aelodau ar y gwasanaethau a ddarperir Gonffederasiwn GIG Cymru a'r gwaith ar eu rhan.

CONFFEDERASIWN CYMRU YN SICRHAU AELODAETH 100%

Mae'n dda iawn gan Conffederasiwn GIG Cymru ddweud, fel ym mis Ebrill eleni, fod pob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru bellach yn aelodau llawn. Rydym wrth ein bodd fod holl gyrff statudol y GIG yng Nghymru wedi ymuno â ni, i chwarae eu rhan yn y Conffederasiwn yng Nghymru a hefyd ar lefel y Deyrnas Gyfunol gyfan.

Pwrpas allweddol y sefydliad yw dylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau ar ran aelodau, a chaiff ein gallu i wneud hyn ei gryfhau'n ddirfawr os siaradwn fel un llais unedig dros yr holl GIG yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at barhau â'r gwaith hwn ar ran ein holl aelodau, hen a newydd, i mewn i 2004.

CADEIRYDD NEWYDD CONFFEDERASIWN CYMRU

Ym mis Tachwedd 2003 daeth Lloyd FitzHugh, Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru, yn Gadeirydd Conffederasiwn GIG Cymru. Lloyd oedd yr unig enwebiad a gafodd gefnogaeth gan yr aelodau a chafodd groeso cynnes yng nghynhadledd y llynedd.

Diolch yn fawr i D Hugh Thomas, rhagflaenydd Lloyd yn y Gadair. Bu Hugh yn gweithio'n ddiflino yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd a roedd yn ganolog yn y cynnydd a wnaeth y Conffederasiwn fel sefydliad yn ystod yr amser hwn.

YR HYN A WNAWN:

- Dylanwadu ar ran aelodau
- Datblygu polisi
- Briffio aelodau
- Adeiladu cysylltiadau gyda phartneriaid allweddol
- Hysbysu'r cyfryngau
- Sicrhau fod aelodau yn cael y fantais lawn o fod yn rhan o Gonffederasiwn GIG y Deyrnas Gyfunol
- Cysylltu aelodau gyda'i gilydd ac unigolion o sefydliadau y tu allan i'r GIG
- Cynnal digwyddiadau a chynadleddau i aelodau

NHS Annual report welsh 30/10/03 12:57 pm Page 2

Pwyllgor rheoli newydd Conffederasiwn GIG Cymru

Mae pwyllgor rheoli Conffederasiwn GIG Cymru'n cyfarwyddo strategaeth gynhwysfawr a datblygiad polisi y Conffederasiwn, ac yn cwrdd bob yn eilfis.

Yn ystod 2003 diwygiwyd y cyfansoddiad ac aelodaeth y pwyllgor i adlewyrchu'r newidiadau strwythurol a fu yn NHS Cymru.

Aelodau'r pwyllgor rheoli newydd fel yn Ebrill 2003 yw:

RHANBARTH GOGLEDD CYMRU

Lloyd FitzHugh	Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
Meirion Hughes	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych
Grace Lewis-Parry	Prif Weithredydd, Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
Hilary Stevens	Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych
Keith Thomson	Prif Weithredydd, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

RHANBARTH DE ORLLEWIN CYMRU

Mary Griffiths	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion
Hugh Thomas	Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
Andy Williams	Prif Weithredydd, Bwrdd Iechyd Powys
Paul Williams	Prif Weithredydd, Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg

RHANBARTH DE DDWYRAIN CYMRU

Margaret Foster	Prif Weithredydd, Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd & Rhondda
Simon Jones	Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Judith Paget	Prif Weithredydd, Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili
Dr Mike Robinson	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg

AELODAU CYFETHOLEDIG

Roy Norris	Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Cymru Gyfan

Diolch yn fawr hefyd i'r aelodau dilynol o'r Pwyllgor Rheoli y daeth eu tymor yn eu swyddi i ben ym mis Mawrth eleni am eu holl waith caled a'u hymroddiad dros y blynyddoedd:

David Hands	Deniss Jesopp
Fiona Peel	Gren Kershaw
David Durham	Mark Lord

YMDDEOLIAD RICHARD THOMAS

Bydd Richard Thomas, Cyfarwyddydd presennol Conffederasiwn GIG Cymru yn ymddeol ddiwedd mis Mawrth 2004, ar ôl 38 mlynedd yn y GIG yng Nghymru, a 4 mlynedd fel Cyfarwyddydd y Conffederasiwn.

Fel Cyfarwyddydd, bu Richard yn ganolog wrth ddatblygu rôl, gallu a phroffil Conffederasiwn GIG Cymru ac estynnwn y dymuniadau gorau oll iddo ar gyfer ymddeoliad hir a hapus.

CROESO I'R CYFARWYDDYDD NEWYDD

Mae'n dda gan Conffederasiwn GIG Cymru gyhoeddi y penodwyd Mike Ponton, sydd ar hyn o bryd yn Gyfarwyddyd Polisi a Datblygu Gwasanaethau Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Gyfarwyddyd Conffederasiwn GIG Cymru i olynu Richard Thomas.

Mae Mike, fydd yn dechrau ar y swydd yn gynnar yn Chwefror 2004, yn rheolydd GIG profiadol a bu ganddo nifer o apwyntiadau uwch reoli yng Nghymru, cyn cymryd penodiad uchel yn y Gwasanaeth Sifil yn y cyn Swyddfa Gymreig ac yn ddilynol y Cynulliad Cenedlaethol.

Edrychwn ymlaen at groesawu Mike i Gonffederasiwn GIG Cymru a dymunwn bob llwyddiant iddo.

GWASANAETHAU NEWYDD I AELODAU YN 2004

Yn 2004 byddwn yn cyhoeddi nifer o wasanaethau newydd i aelodau ar ben y rhai a amlinellir yn y ddogfen hon.

Bydd y gwasanaethau hyn yn cynnwys cefnogaeth gynyddol ar gyfer NEDs a NOMS ac ymestyn ein rhaglen dylanwadu.

NHS Annual report welsh 30/10/03 12:57 pm Page 3

Gwasanaethau a Buddion
Aelodau yn 2003

1 DYLANWADU

Mae dylanwadu yn greiddiol i'n gwaith beunyddiol. Mae'r holl waith a wnawn ar ran ein haelodau yn anelu i ddylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau a sefydliadau partner.

- Codwyd pryderon aelodau yn uniongyrchol gyda'r prif wneuthurwyr penderfyniadau yn cynnwys y Gweinidog Iechyd, y Dirprwy Weinidog, Cyfarwyddydd y GIG a chynghorwyr iechyd y Cynulliad. Un pryder o'r fath oedd diffyg cysylltiad rhwng gwahanol strategaethau iechyd Llywodraeth y Cynulliad. I amlygu'r pryder hwn, fe wnaethom ddatblygu thema 'Dod â'r Jig-so at ei Gilydd' yr awn ag ef drwodd i'n cynhadledd.
- Cymryd rhan mewn cyfres o gyfarfodydd gyda sefydliadau partner – yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y BMA a'r RCN i helpu i fynd â meysydd o gonsyrn cyffredin rhagddynt.
- Cynnal arolwg ymhlith ein haelodau ar u barn am adolygiad Wanless o Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyn ymgyrch lawn i ddylanwadu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Cynulliad, Whitehall a chydweithwyr Iedled y Deyrnas Gyfunol i sicrhau fod aelodau Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn trafodaethau ar y contract GMS ar lefel y Deyrnas Gyfunol gyfan.
- Cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar gymhareb dyrannu adnoddau newydd Townsend yn uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷr Cyffredin ar Fesur GIG Cymru ac i'r Cynulliad Cenedlaethol ar strategaeth 'Hysbysu Gofal Iechyd'.
- Rhoi tystiolaeth lafar i bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol ar oblygiadau adroddiadau Carlile & Kennedy.
- Cael cytundeb gyda Chyfarwyddydd GIG Cymru fod mwy o bwyslais a chyllid yn hanfodol ar gyfer rhaglen anwytho a datblygu ar gyfer Cadeiryddion, NEDS ac aelodau heb fod yn swyddogion. Sefydlwyd gweithgor dan fantell Conffederasiwn GIG Cymru i gynllunio a datblygu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer y dyfodol.
- Trefnu gwobrau rheolaeth 2003 a pharhau â'n hymgyrch i danlinellu pwysigrwydd rheolaeth yn y GIG yng Nghymru.
- Cymryd rhan yn y 'diwrnod maniffesto' yn y Cynulliad Cenedlaethol gan gyflwyno ein syniadau maniffesto ar gyfer iechyd yn uniongyrchol i weinidogion ac aelodau cynlluniad cyn yr etholiadau.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr angen am welliannau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o fewn GIG Cymru.
- Aelodaeth ar ochr rheoli trafodaethau contract ymgynghorwyr yng Nghymru.
- Aelodau gweithgar o'r canlynol yn ystod 2003:-

> Pwyllgor Materion Gwledig Cymru

> Bwrdd prosiect gweithredu Datblygiad Proffesiynol Parhaol

2 POLISI

Nod ein gwaith polisi yw helpu i osod yr agenda iechyd yng Nghymru, yn ogystal ag ymateb iddo. Mae'n gwaith, yn rhagweithiol ac yn adweithiol, yn yr arena polisi yn ein galluogi i ddylanwadu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ran ein haelodau.

- Datblygu papur blaenoriaethau iechyd ar gyfer Llywodraeth newydd y Cynulliad yn seiliedig ar arolwg o'n haelodaeth.
- Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y ynulliad ar 'Hysbysu Gofal Iechyd' a chyhoeddi papur polisi Materion Gwybodaeth yn gosod ein gweledigaeth ar gyfer Gwybodaeth a TG, a gyflwynwyd i Jane Hutt y Gweinidog Iechyd a Dr Dai Lloyd y Gweinidog Iechyd Cysgodol.
- Ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar Adolygiad Wanless o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.
- Cyhoeddi ein dogfen bolisi 'materion rheolaeth' oedd yn gosod yr achos yn gryf dros fwy o fuddsoddiad yn GIG Cymru.
- Cydweithio'n agos gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i ddatblygu strategaeth i liniaru baich wrocratiaeth ar sefydliadau GIG yng Nghymru.
- Cynhyrchu briffiad ar gyfer Aelodau Cynulliad ar y contract GMS. Bu sawl cyfeiriad ato yn ystod trafodaeth ar y pwnc mewn sesiwn lawn o'r Cynulliad.
- Gweithio'n agos gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu strategaeth gydweithredu ar gyfer y contract GMS yng Nghymru.
- Datblygu ein cysylltiadau gyda Dr Scott reer ac ymchwilwyr yn edrych ar ddatganoli a pholisi iechyd ar draws y Deyrnas Gyfunol yn Uned Gyfansoddiadol Coleg Prifysgol lundain.
- Gwella dosbarthiad cyhoeddiadau polisi y Deyrnas Gyfunol i aelodau yng Nghymru.
- Gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y Deyrnas Gyfunol drwy gyfres o weithdai Celtaidd.
- Cymryd rôl arweiniol ar sawl mater polisi y Deyrnas Gyfunol gyfan megis arweinyddiaeth yn y GIG.

NHS Annual report welsh 30/10/03 12:57 pm Page 4

Gwasanaethau a Buddion
Aelodau yn 2003

3 DIGWYDDIADAU

Mae digwyddiadau'n rhoi cyfle i aelodau rwydweithio gyda ffigurau amlwg ledled teulu'r GIG yng Nghymru, cysylltu gyda uwch bobl GIG o weddill y DG a chlywed siaradwyr safon uchel o amrediad o gefndiroedd a gwledydd.

- Cynhadledd Flynyddol Conffederasiwn GIG Cymru 'Cysylltu 2002' a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Hilton, Caerdydd, oedd y gynhadledd flynyddol fwyaf yng Nghymru hyd yma. Daeth 200 o gynrychiolwyr i'r gynhadledd gydag amrediad o siaradwyr o'r radd flaenaf o bob rhan.
- Cynadleddau hanner diwrnod yng Ngogledd a De Cymru ar fframwaith contract GMS newydd i aelodau fwydo eu sylwadau.
- Digwyddiad ar oblygiadau'r contract GMS newydd gyda Mike Farrar, cadeirydd y tîm negydu craidd, yn siaradwr allweddol.
- Cynnal y Fforwm Syniadau cyntaf a ddaeth ynghyd ag amrediad eang o fudd-ddeiliaid i drafod materion iechyd allweddol.
- Derbyniad ar gyfer aelodau, gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi o'r Cynulliad, a chynrychiolwyr eraill o gyrff cyhoeddus a sefydliadau partner, gyda'r nod o godi proffil y Conffederasiwn.
- Rydym ar hyn o bryd yn arwain ac yn trefnu gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru lansiad Hysbysu Gofal Iechyd, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dyfodol gwybodaeth a TG yn GIG Cymru.
- Cyd-drefnu a datblygu llinyn cyfan ar 'Ddysgu ar Draws Ffiniau' yng nghynhadledd Conffederasiwn y Deyrnas Gyfunol yn Glasgow.
- Trefnu siaradwyr o Gymru ar gyfer digwyddiadau y Deyrnas Gyfunol gyfan.
- Cynnal digwyddiad gyda ffocws arbennig ar NEDs am rôl a swyddogaeth byrddau.

4 CYFATHREBU A CYHOEDDIADAU

Mae gwaith cyfryngau yn wasanaeth a ddarparwn i aelodau i geisio sicrhau y caiff rheolaeth GIG ei bortreadu yn deg ac yn cywir gan y teledu, radio a phapurau newydd. Mae'n gwaith cyfathrebu yn anelu i sicrhau y caiff aelodau eu hysbysu'n llawn am yr holl waith a gynhaliwn ar eu rhan.

- Ymddangosodd y Cyfarwyddydd yn fyw ar brif stori newyddion min nos HTV Cymru i amddiffyn lefelau cyflog Prif Weithredwyr y GIG yng Nghymru.
- Cymryd rhan mewn trafodaeth fyw ar deledu'r BBC oedd yn cynnwys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.
- Datganiadau rheolaidd i'r wasg i'r cyfryngau yng Nghymru ar amrediad o faterion iechyd.
- Cyfrannu at sawl erthygl nodwedd yn y Western Mail ar faterion megis strategaeth Hysbysu Gofal Iechyd ac ailddylunio gwasanaeth yng Nghymru.
- Nifer fawr o lythyrau i'r Western Mail yn ateb erthyglau yn beirniadu rheolwyr.
- Cynhyrchu rhifynnau misol o bulletin – ein cyhoeddiad i ddiweddaru aelodau ar y gwaith a wneir gan Conffederasiwn GIG Cymru ar eu rhan.
- Cyfrannu at sawl erthygl nodwedd yn yr Health Service Journal a chyhoeddiadau proffesiynol eraill ar: -
  - > Blaenoriaethau ar gyfer y llywodraeth newydd
  - > Adolygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol
  - > Ailstrwythuro GIG Cymru
- Briffiad i'r Deyrnas Gyfunol gyfan ar y trefniadau strwythurol newydd ar gyfer GIG Cymru.
- Briffiad i'r Deyrnas Gyfunol gyfan ar fformiwla dyrannu adnoddau Townsend a'i weithrediad ac oblygiadau tebygol.
- Sicrhau dosbarthiad cyflym papurau contract perthnasol GMS, yn cynnwys briffiadau Natpact, a gynhyrchwyd yn Llundain.

SWYDDFEYDD NEWYDD

Ym mis Medi symudodd Conffederasiwn GIG Cymru ei swyddfa i Fae Caerdydd, ger Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydliadau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill cenedlaethol. Ein manylion cyswllt newydd yw:

Conffederasiwn GIG Cymru, Tŷ Regus, Falcon Drive, Caerdydd CF10 4RU.
Ffôn: 029 2050 4090 Ffacs: 029 2050 4190 E-bost: name.surname@welshconfed.org